

Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau
Sesiwn Gyhoeddus Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
23 Mehefin 2026 am 10:00, drwy Microsoft Teams
Rhan A

Yn bresennol		
Kate Young	(KY)	Cadeirydd y Pwyllgor, Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector)
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol)
Clare Jenkins	(CJ)	Is-Gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol
Catherine Purcell	(CP)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol)
Yn Bresennol:		
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Katrina Febry	(KF)	Archwilio Cymru
Ian Kent	(IK)	Pennaeth Adrodd a Rheoli Ariannol
Zoe Pietrzak	(ZP)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cymid a Pherfformiad
Blake Rennie	(BR)	Rheolwr Archwilio, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Martin Veale	(MV)	Ymgynghorydd Annibynnol
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Kathryn Withers	(KW)	Archwilio Cymru
Steve Woodman	(SW)	Archwilio Cymru
Ymddiheuriadau		
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig
Pippa Britton	(PB)	Cadeirydd y Bwrdd
Neil Stoodley	(NS)	Pennaeth Cyllid Dros Dro
Dechreuodd y cyfarfod am 10:00		



ACGC 1/2026.06.23 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb	
Agorodd NE y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod wedi'i gynnal yn electronig ac yn 3.4 CQ2. Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldebau a oedd wedi dod i law. Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y byddai'r cofnodion wedi'u cytuno yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi 2026.	
ACGC 2/2026.06.23	Datganiadau o Fuddiant
Nid oedd datganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgawyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.	
ACGC 3/2026.06.23	Adroddiadau Diwedd Blwyddyn / Datganiadau Ariannol a Llywodraethu Blynyddol
ACGC 3.1/2026.06.23	Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol, Barn Archwilio Mewnol Terfynol ac Adroddiad Blynyddol 2025/26
Cyflwynodd PD yr eitem a nodi bod dau Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol o Gynllun Gwaith 2025/26 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor. <u>Rhoi rhybudd am ddiwyddiadau a brigiau a'u achosion:</u> Crynhodd BK yr adroddiad a oedd yn asesu set roedd y Sefydliad yn rheoli clefydau trosglwyddadwy hysbysadwy, gan gynnwys cornodi achosion, eu huwchgyfeirio, cydlynu ac ymateb aml-asiantaeth. Cafodd farn sicrwydd sylweddol, gydag un canfyddiad â graddfa ganolog yn ymwneud â gwendidau yn y ffordd y dysgwyd gwersi. <u>Llwybrau cleifion (Rhaglenni Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru ac Anewrysmau Aortig Anghyffredin) :</u> Crynhodd BK yr adroddiad a oedd yn archwilio llwybrau cleifion, llywodraethu, goruchwyliaeth unigol a threfniadau gweithredol ar draws y ddwy raglen. Darparwyd barn sicrwydd mesyrnol, pwysleisiwyd y cyfle i rannu arferion gorau rhwng rhaglenni, a gwnaed pwr gytunelliaid â sgôr ganolog: • Anghysondebau o ran cylch gorchwyl bwrdd y rhaglen • Bylchau mewn asesiadau risg ar gyfer lleoliadau sgrinio • Gwendidau wrth reoli disgrifiadau rôl/swydd Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) • Eitemau agenda sydd ar goll ar gyfer craffu ar y gofrestr risg • Bylchau yn y ddogfennaeth parhad busnes (AAA) Trafododd y Pwyllgor y lefel y sicrwydd y gellid ei chael o'r adolygiad, yn enwedig o ran y risg o bwyntiau methiant unigol. Ceisiodd sicrwydd nad oedd systemau llwybrau cleifion yn dibynnu ar brosesau bregus fel taenlenni. Cadarnhaodd BR fod y ddwy raglen yn defnyddio systemau meddalwedd pwrpasol sydd wedi'u hintegreiddio â	



gwasanaethau'r ysbyty, ac na ddefnyddid taenlenni i reoli data cleifion, ond yn hytrach er mwyn adrodd ar allbynnau yn unig.

Gofynnodd y Pwyllgor am yr amserlenni gweithredu ar gyfer rhoi'r camau ar waith. Nododd bod nifer ohonynt i'w cyflawni'n fuan ym mis Mehefin 2026. Eglurodd PD a BR fod yr amserlenni wedi'u pennu gan y rheolwyr, yn unol â'r disgwyliadau ar gyfer canfyddiadau â blaenoriaeth ganolog, a bod arweinwyr rhaglenni eisoes wedi dechrau rhoi camau unioni ar waith.

Atgoffodd PV y Pwyllgor y byddai'r argymhellion yn cael eu cofnodi a'u monitro yn yr Offeryn Orlhain Archwiliadau, ac y byddai cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, er mwyn rhoi sicrwydd bod y camau gweithredu'n cael eu cyflawni.

Cyflwynodd PD Farn Pennaeth yr Archwiliad Mewnol, y Farn Archwilio Mewnol Derfynol a'r Adroddiad Blyneddol 2025/26. Roedd yr adroddiad yn darparu Sicrwydd Rhesymol. Nododd mai'r unig newid i'r adroddiad ers iddo gael ei gyflwyno ar ffurf drafft i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mai oedd cofnodi'r ddau Adroddiad Archwilio Mewnol a dderbyniwyd fel Adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol yn y cyfarfod hwn.

ACGC 3.2/2026.06.23 | Barn Flynyddol Archwilio Cymru (gan gynnwys ISA 260)

Cyflwynodd SW Farn Flynyddol Archwilio Cymru (gan gynnwys ISA 260). Cadarnhaodd fod yr archwiliad wedi'i gwblhau a bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod, heb faterion sylweddol, heb gymddatganiadau heb eu cywiro, a heb argymhellion wedi'u nodi.

Hysbysodd y Pwyllgor fod y cyfrifon o safon uchel ac wedi'u hategu gan bapurau gwaith cadarn; roedd y broses archwilio wedi bod yn effeithlon ac yn gydweithredol, ac wedi elwa ar brofi cynnar ac ymgysylltu da â'r Sefydliad.

Hysbysodd KW y Pwyllgor bod y holl feysydd gwaith a oedd heb eu cwblhau o'r blaen wedi'u datrys, ac nad oedd gymddatganiadau heb eu cywiro i'w dwyn i sylw'r Pwyllgor. Roedd y cyfrifon a baratowyd o safon uchel iawn, a byddai barn ddiamod yn cael ei chyhoeddi. Disgwylid i'r Archwilydd Cyffredinol ardystio'r cyfrifon cyn y dyddiad cau ar 30 Mehefin.

Nodwyd y barn ddiamod yn y Llythyr Cynrychiolaeth i'w llofnodi gan y Sefydliad, ac fe'i cynhwyrowyd yn Atodiad 6.

Ar y cyfan, amlygodd y modd y cyflwynwyd y cyfrifon sefyllfa gref o ran rheolaeth ariannol, gydag Archwilio Cymru yn mynegi gwerthfawrogiad o gydweithrediad y sefydliad ac ansawdd y cyfrifon a gynhyrchwyd.

Diolchodd IK, ar ran y Tîm Cyllid, i Archwilio Cymru am y gefnogaeth a gafwyd yn ystod y broses archwilio, a chytunodd fod y feddalwedd newydd wedi gwella'r broses yn sylweddol.

Mynegodd y Pwyllgor ei ddiolch i'r Tîm Cyllid am ei waith i sicrhau adroddiad rhagorol gan Archwilio Cymru.



ACGC 3.3/2026.06.23	Datganiad Ariannol Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2025/26
Cyflwynodd ZP Ddrafft o'r Datganiad Ariannol Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2025/26. Nododd fod y broses gyfrifon wedi rhoi sicrwydd sylweddol iddi ynghylch ansawdd y datganiadau ariannol, y prosesau ategol a'r dogfennau gwaith yn y Sefydliad. Cydnabu'r berthynas waith gref ac adeiladol rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Archwilio Cymru fel ffactor allweddol a oedd yn sail i'r canlyniad llwyddiannus. Wrth bwysleisio nad oedd cyrraedd canlyniad archwiliad heb argymhellion yn beth cyffredin, mynegodd ei diolch i'r tîm cyllid – yn enwedig IK a'i gydweithwyr – am eu hymdrechion i sicrhau canlyniad rhagorol. Adroddodd IK fod ymarfer dysgu gwersi wedi'i gwblhau yn dilyn archwiliad y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn wedi llywio gwelliannau i'r broses eleni a'r wedi'i gwrain at archwiliad mwy llyfn ac effeithlon, gan gynnwys gwell paratoadau a sicrhau bod gwybodaeth yn barod yn gynt. Cadarnhaodd fod ymarfer i nodi gwersi a'u dysgwyl wedi'i gynllunio ar gyfer mis Gorffennaf, gyda'r bwriad o barhau i fireinio'r broses er mwyn ei gwella ar gyfer Archwiliad y flwyddyn nesaf. Hysbysodd y Pwyllgor fod aelodau o'r Tîm Cyllid wedi cwblhau eu gwaith cyn y dyddiad cau, ac awgrymodd dyddiad cau cynharach ar gyfer 2026/27. Nododd y Pwyllgor fformat yr Adroddiad, a nodi bod rhai tablau yn anodd eu darllen. Hysbysodd IK y Pwyllgor bod y templed wedi'i ddiarparu gan Lywodraeth Cymru ac na ellid ei newid. Hysbyswyd y Pwyllgor y darperai fersiwn o'r Adroddiad a fyddai'n hawdd ei defnyddio yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.	
ACGC 3.4/2026.06.23	Adroddiad Atebolrwydd Drafft 2025/26
Cyflwynodd PV Ddrafft o'r Adroddiad Atebolrwydd 2025/26 a hysbysu'r Pwyllgor, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 7 Mai, fod Drafft o'r Adroddiad Atebolrwydd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w addolygu. Awgrymwyd rhai mân newidiadau; cafodd y rhain eu hymgorffori yn yr Adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, a chawsant eu cofnodi yn yr Adroddiad Cyflenwi. Mynegodd T ei diolch i bawb a fu'n rhan o baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y tablau ar dudalen 88 yn gywir, gan mai 2023/24 a 2024/25 oedd y blynyddoedd a nodwyd. Cytunodd PV i gywiro'r gwallau cyn i'r Adroddiad gael ei gyflwyno i'r Bwrdd. Canlyniad: PV	
ACGC 3.5/2026.06.23	I'w Hargymell i'r Bwrdd
Gwnaeth y Pwyllgor: - Gymryd sicrwydd gan Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 (Eitem 3.1) Argymell y Cyfrifon Ariannol a Barn Flynyddol Archwilio Cymru (ISA260) i'r Bwrdd eu cymeradwyo. (Eitemau 3.2 a 3.3) Argymell Adroddiad Atebolrwydd 2025/26 i'w gymeradwyo gan y Bwrdd. (Eitem 3.4)	



• Nodwyd, ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd, y bydd y dogfennau'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin 2026.	
ACGC 4/2026.06.23	I'w nodi
Derbyniodd y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 a nodi ei gynnwys .	
ACGC 11/2026.06.23	Gweinyddiaeth i Gloi
Gofynnwyd i'r Pwyllgor roi adborth ar y cyfarfod i LB.	
Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 3 Medi 2026.	
Unrhyw Fater Arall: Dim.	
Diolchodd KY i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.	
Daeth y cyfarfod i ben am 10:35	

Heb eu Cadarnhau